



Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Pierhead Street  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru](mailto:Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru)

28/08/2015

## Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad y pwyllgor ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

### Cefndir

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Mae'r Comisiynydd yn darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0845 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.org](mailto:post@welshlanguagecommissioner.org)  
Correspondence welcomed in Welsh and English



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

## Cyd-destun

Gan gydnabod pwysigrwydd iaith yn y cyd-destun hwn, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ei ymholiad statudol cyntaf dan Adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol. Casglwyd tystiolaeth gan dros fil o gleifion ac aelodau'r cyhoedd ac ystod eang o ymarferwyr a phartion eraill â diddordeb yn y maes. Yn 2014 cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymholiad, '*Fy Iaith: Fy Iechyd – y Gymraeg Mewn Gofal Sylfaenol*'. Ategodd y dystiolaeth a gasglwyd yr hyn a ddywedir yn '*Iaith Fyw: Iaith Byw*', sef bod iaith yn greiddiol i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd o safon ac nad yw gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd yn cwrdd yn llawn ag anghenion cleifion ar hyn o bryd. Mae hynny'n ategu canfyddiad Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar weithrediad y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol yng Nghymru, sef bod '*cryn bryder ar lawr gwlad*' ynghylch darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal.

Nodir o fewn llythyr ymgynghori'r pwyllgor mai un o swyddogaethau'r pwyllgor wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn yw ystyried i ba raddau y mae'r Bil yn cyd-fynd â blaenoriaethau o ran gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Un o'r blaenoriaethau hynny yw datblygu a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Anelir i gyflawni hynny trwy nifer o ddulliau gwahanol. Paratowyd strategaeth penodol ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, '*Mwy na Geiriau*', a chynllun gweithredu i ategu'r strategaeth honno. Mae paratodau ar waith i osod dyletswyddau ar gyflenwyr gwasanaethau iechyd a gofal i ddarparu yn Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan adeiladu ar lwyddiant Cynlluniau Iaith Gymraeg.

## Bil Iechyd y Cyhoedd

Wrth ymateb ym mis Mehefin 2014 i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Iechyd y Cyhoedd, papur oedd yn rhagflaenu paratoi'r Bil hwn, nododd Comisiynydd y Gymraeg

*“Er mwyn cydymffurfio gydag ymrwymadau cyffredinol Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd, a'i Chynllun Iaith Gymraeg, dylid talu sylw arbennig i bob cyfle i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid ystyried yn fanwl pa gyfleoedd sydd i gau unrhyw fylchau yn darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal iechyd ledled Cymru. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd, asiantaethau statudol eraill a'r Llywodraeth fel ei gilydd i adnabod a chau'r bylchau hyn a chynllunio'n lleol a chenedlaethol yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n hanfodol bod cyrff yn mynd ati i unioni'r meysydd hynny sydd ar hyn o bryd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.”*



Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad o effaith Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar y Gymraeg. Awgrymir yn yr adroddiad ar yr asesiad hwnnw mai prin fydd effeithiau uniongyrchol y Bil ar y Gymraeg. Nodir rhai effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol fydd yn deillio o rannau penodol o'r Bil, gan gynnwys creu llyfr statud cwbl ddwyieithog ar ysmegu neu'r defnydd o e-sigaréts a chyhoeddi canllawiau ac arwyddion dwyieithog yng nghyswllt rhai datblygiadau penodol eraill. Mae'r effeithiau hynny i'w croesawu. Ystyriwn serch hynny y gallasai Rhan 5 y Bil, sy'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol, effeithio'n uniongyrchol ac yn sylweddol ar ddefnydd o'r Gymraeg. Felly, wrth drafod isod i ba raddau y mae egwyddorion cyffredinol y Bil hwn yn cyd-fynd â'r angen i wella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal, rhoddir sylw penodol i Ran 5 y Bil.

## Gwasanaethau Fferyllol yn Gymraeg

Bydd Rhan 5 y Bil yn

- rhoi dyletswydd ar bob BILI i gwblhau asesiad rheolaidd o anghenion fferyllol ei boblogaeth ('asesiad o anghenion fferyllol')
- diwygio'r prawf "rheoli mynediad" y mae'n ofynnol i BILI eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau i ymuno â'u rhestr fferyllol, i un sydd wedi'i seilio'n fwy clir ar fodloni anghenion fferyllol lleol;
- mewn amgylchiadau lle nad yw pobl sydd wedi'u cynnwys ar eu rhestr fferyllol yn gallu darparu gwasanaethau penodol i fodloni'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol, rhoi'r pŵer i BILI wahodd pobl eraill, ar wahân i'r rhai sydd ar eu rhestr, i ddarparu gwasanaethau fferyllol; a
- darparu ar gyfer rheoliadau fydd yn galluogi BILI i dynnu fferyllwyr neu fangreoedd rhestredig oddi ar y rhestr fferyllol lle maent yn torri telerau ac amodau gwasanaeth yn gyson a/neu'n ddifrifol.

Mae a wnelo'r darpariaethau hyn oll a chynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol sy'n ateb gofynion y gymuned a wasanaethir. Serch hynny, nid yw'r Bil na'r ddogfennaeth sy'n atodol i'r Bil, gan gynnwys yr asesiad o effaith ar y Gymraeg, yn egluro'r berthynas rhwng darpariaethau Rhan 5 y Bil a mesurau sydd yn eu lle ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal. Ni eglurir sut y bwriedir i Ran 5 y Bil gefnogi darpariaeth gwasanaethau fferyllol Cymraeg.

A oes potensial, er enghraifft, i'r asesiadau o anghenion fferyllol y bydd dyletswydd ar Fyrddau Iechyd i'w cynnal yn unol â Rhan 5 y Bil, gynnwys asesiad o ddigonolrwydd darpariaeth Gymraeg fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru? Sut ddylai Byrddau Iechyd gymryd y Gymraeg i ystyriaeth wrth gynnal yr asesiadau hynny, a sut ddylid ystyried canfyddiadau'r asesiadau hynny wrth gynllunio gwasanaethau Cymraeg at y dyfodol? A fydd y gallu i ddarparu yn Gymraeg yn un o feini prawf y 'prawf rheoli mynediad' y bydd yn ofynnol i BILI eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau i ymuno â'u rhestr fferyllol? A allasai



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

fferyllwr cymunedol beryglu ei gymhwysedd i gael ei gynnwys ar 'restr fferyllol' pe bai'n methu darparu gwasanaethau Gymraeg?

Yn anffodus, nid yw'r ddogfennaeth sy'n atodol i'r Bil, gan gynnwys yr asesiad o effaith y Bil ar y Gymraeg, yn trafod nac yn cynnig atebion i gwestiynau o'r fath. Nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru '*Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg*'. Nid yw'n amlwg pa ystyriaeth sydd wedi ei roi, os o gwbl, i'r cyfleoedd i Ran 5 y Bil gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol Gymraeg.

### Casgliadau

Dangosodd ymholiad statudol Comisiynydd y Gymraeg yr angen am welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau fferyllol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella'r gwasanaethau hyn ac wedi rhoi mesurau ar waith i gyflawni hynny. Mae Rhan 5 y Bil yn ymwneud yn benodol â chynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol a gellir tybio felly y dylai bod cysylltiad clir rhwng y mesurau sydd yn eu lle ar gyfer gwella gwasanaethau fferyllol Gymraeg a Rhan 5 y Bil hwn.

Serch hynny, nid yw'r ddogfennaeth sy'n atodol i'r Bil yn adnabod unrhyw gyswllt uniongyrchol ac heb ystyriaeth fanwl i hynny mae risg y bydd unrhyw gyfleoedd a gynigir gan Ran 5 y Bil i gefnogi darpariaeth gwasanaethau Gymraeg yn cael eu colli. Yn unol ag ymrwymadau cyffredinol Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd, a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, mae disgwyl i unrhyw ddeddf a gyflwynir gan y Llywodraeth fanteisio ar unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i wella darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Felly, os na fwriedir cyfeirio at y Gymraeg ar wyneb y Bil ei hun, bydd angen ystyried a chynllunio sut y gall unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'r Bil, er enghraifft yr is-ddeddfwriaeth fydd yn ymwneud â chynnal asesiad o anghenion fferyllol y boblogaeth, neu gyngor neu ganllawiau statudol cysylltiedig, gyfrannu at wella'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol Gymraeg. Ystyriwn y bydd angen eglurder ynghylch hynny er mwyn caniatáu i'r Aelodau'r Cynulliad ddod i farn ar i ba raddau y mae'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwn yn gwbl fodlon cwrdd â'r pwyllgor i drafod y sylwadau hyn ar lafar, pe bai hynny o ddefnydd.

Yn gywir,

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg